# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 19/10/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Pensiynau

***12. Chris Franks:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglyn â phensiynau. OAQ(3)3158(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid wyf wedi trafod pensiynau â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, bûm yn trafod â'r Arglwydd Hutton o'r Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad interim ar 7 Hydref. Mae'r Arglwydd Hutton yn cyfarfod â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar 2 Tachwedd.

### Blaenoriaethau Cyllideb

***13. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)3164(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaethau ar hyn o bryd yw gwireddu ymrwymiadau'r rhaglen 'Cymru'n Un' sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus, a pharatoi ymateb Cymru i heriau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU. Yr wyf eisoes wedi datgan mai gofal iechyd, addysg a sgiliau fydd yn cael blaenoriaeth yn ein cyllidebau yn y dyfodol.

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

***14. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar ddod. OAQ(3)3166(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cael trafodaethau cyson â Gweinidogion Llywodraeth y DU ar ystod o faterion sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys yr adolygiad o wariant sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb hefyd yn cynnal trafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar faterion sy'n gysylltiedig â chyllideb a materion ariannol Cymru.

### Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post

***15. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post. OAQ(3)3156(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Byddwn wrth fy modd yn rhoi'r diweddaraf i chi am y gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol fanylion dyfarniadau'r trydydd cylch. Hyd yma, mae 181 o swyddfeydd post ledled Cymru wedi elwa ar grantiau gwerth cyfanswm o fwy na £3.3 miliwn gan y gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post.